| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf / Your ref: | | Gofynner am / Please ask for: | **Mrs Rhianydd Evans** |
| Fy nghyf / My ref: | | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | **01267 246426** |
| Dyddiad / Date: | **10/03/22** | E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: | RJonesEvans@sirgar.gov.uk<br>RJonesEvans@carmarthenshire.gov.uk |

Annwyl Ymgynghorai,

**<u>Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –<br>Newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11</u>**

Ar ddydd Mercher, 9 Mawrth 2022, cymeradwyodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig canlynol:

***Newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11<br>a darparu 30 o leoedd meithrin o'r 1 Medi 2022 ymlaen.***

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig -** Ni dderbyniwyd gwrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nododd nad oedd dim gwrthwynebiadau wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Barn Estyn oedd y byddai'r cynnig yn cynnal safon bresennol y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Datblygwyd y cynnig yn unol â gweledigaeth y cyngor i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl ifanc, a gwella ac egluro'i ddarpariaeth addysgol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, roedd y Cyngor yn credu y byddai newid yr ystod oedran yn gwella'r capasiti ar gyfer plant yn y gymuned leol ac yn golygu y byddai'r ysgol yn gydnaws â'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn yr ardal. Mi fyddai'n cynnig cyfnod pontio di-dor o'r dosbarth meithrin i'r ysgol gynradd ac yn egluro i rieni pa ddarpariaeth mae'r ysgol yn ei gynnig.

**Adnoddau addysg**

Barn y Cyngor oedd bod Ysgol Swiss Valley yn cael ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Sir ac y bydd yr Ysgol yn derbyn adnoddau gan ddefnyddio'r un meini prawf ag unrhyw ysgol arall yn y sir a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion.

**Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Rhianydd Evans o'r adran hon.

Yn gywir

Gareth Morgans
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasnaethau Plant**

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Direction of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

EIN POBL OUR PEOPLE
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English